

Cais

Hunan-osod prif bibell ddŵr

Cais am brif bibell ddŵr dan Adran 41,
51A a 55 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP



severn dee

Cais am hunan-osod prif bibell ddŵr

Cyfeiriwch at y nodiadau canllaw i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais hon. Efallai y byddwch am gadw copi o'r ffurflen wedi'i llenwi ar gyfer eich cofnodion eich hun.

Adran 1A: Y Gofynnydd

Enw'r Gofynnydd:	Nodyn 1.1	Enw cyswllt:
Cyfeiriad y Gofynnydd:	Nodyn 1.2	Rhif ffôn:
		Rhif ffôn Symudol:
		Cyfeiriad E-bost:
Cod Post:		
Rhif cwmni cofrestredig:	Nodyn 1.3	

Adran 1B: Manylion Asiant/Ymgynghorydd

(i'w gwblhau dim ond os defnyddir asiant/ymgyngorydd)

Enw'r Asiant/Ymgynghorydd:	Nodyn 1.4	Enw cyswllt:
Cyfeiriad:	Nodyn 1.2	Rhif ffôn:
		Rhif ffôn Symudol:
		Cyfeiriad E-bost:
Cod Post:		
Rhif cwmni cofrestredig:	Nodyn 1.3	

Adran 1C: Manylion y safle

Enw a chyfeiriad y safle:	Nodyn 1.5	Gyda phwy ddylem ni ohebu?
		Y Gofynnydd <input type="checkbox"/> Asiant/Ymgynghorydd <input type="checkbox"/>
		Cyfeirnod cais cysylltiedig: Nodyn 1.7
Cod Post:		
Cyfeirnod Arolwg Ordnans:	Nodyn 1.6	
X: <input type="text"/>	Y: <input type="text"/>	

A oes unrhyw un arall y byddech chi'n hapus i ni drafod eich cais ag ef/hi?

Oes Nac oes

Os oes, rhowch wybod i ni yma

Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi?

E-bost Post

Adran 2: Manylion y Contractwr

Enw'r Contractwr	Nodyn 2.1	Enw cyswllt:
Cyfeiriad y contractwr:	Nodyn 1.2	Rhif ffôn:
		Rhif ffôn Symudol:
		Cyfeiriad E-bost:
Cod Post:		
Rhif cwmni cofrestredig:	Nodyn 1.3	

Adran 3: Rheoliadau Rheoli Adeiladu a Dylunio (CDM) 2015

I gael gwybodaeth am Reoliadau CDM 2015 ewch i www.hse.gov.uk

1. A yw'ch prosiect yn hysbysadwy? Nodyn 3.1 Ydy Nac ydy
Mae eich prosiect yn hysbysadwy os bydd gwaith adeiladu yn para mwy na 30 diwrnod gwaith a bod mwy nag 20 o weithwyr yn gweithio ar yr un pryd ar unrhyw adeg yn y prosiect; neu'n cynnwys mwy na 500 o ddyddiau person.

Os nad ydy, ewch i gwestiwn 3.

2. A yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael gwybod bod eich prosiect yn hysbysadwy? Nodyn 3.2 Ydy Nac ydy
Os nad ydy, mae angen i chi gysylltu â'r HSE yn www.hse.gov.uk i ddweud wrthynt fod eich prosiect yn hysbysadwy cyn i chi gyflwyno'r ffurflen gais hon.

3. A yw'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer cleient domestig? Nodyn 3.3 Ydy Nac ydy

4. Os ateboch ydy i gwestiwn 3, ydych chi wedi rhoi gwybod i'r prif ddylunydd a/neu'r prif gontractwr am eu cyfrifoldebau? Nodyn 3.4 Ydw Nac ydw

5. Os ateboch nac ydy, i gwestiwn 3, rhowch fanylion cyswllt ar gyfer y cleient, y prif ddylunydd a/neu'r prif gontractwr isod Nodyn 3.5

Enw'r cleient (os yw'n wahanol i'r ymgeisydd)

Cyfeiriad:

Cod Post:

Enw cyswllt:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad E-bost:

Enw'r prif gontractwr:
(os yw'n wahanol i'r contractwr uchod) Nodyn 3.4

Cyfeiriad:

Cod Post:

Enw cyswllt:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad E-bost:

Enw'r prif ddylunydd:	Enw cyswllt:
Cyfeiriad:	Rhif ffôn:
Cod Post:	Cyfeiriad E-bost:

Adran 4: Manylion y Cyngor Lleol

Enw'r Cyngor Lleol:	Nodyn 4.1	Dyddiad caniatâd amlinellol:	Nodyn 4.3
Cyfeirnod caniatâd cynllunio'r cyngor lleol:	Nodyn 4.2	Dyddiad caniatâd llawn:	Nodyn 4.4

Dywedwch wrthym am unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd

Adran 5: Cyflwr y tir

Mae angen i ni wybod ar gyfer beth y defnyddiwyd y safle yn y gorffennol er mwyn i ni allu dweud wrthyhych a oes unrhyw halogyddion a fydd yn effeithio ar ddeunydd y bibell sydd i'w gosod. Os yw'r tir wedi'i halogi, gellir gohario'r cysylltiad nes i chi gymryd camau amddiffynnol neu adferol. *Nodyn 5.1*

1. Dywedwch wrthym ar gyfer beth y defnyddiwyd y safle yn flaenorol: Nodyn 5.2

a) Tir glas/amaethyddiaeth b) Tai c) Diwydiant d) Tirlenwi e) Arall (rhowch fanylion)

Lle'r oedd y defnydd blaenorol yn unrhyw beth heblaw tir glas/amaethyddol, bydd angen Adroddiad Dadansoddi Pridd, oni bai y gallwch gadarnhau bod pibellau amddiffynnol i'w gosod. Os oes angen Adroddiad Dadansoddi Pridd, ond nad yw wedi ei gynnwys gyda'r ffurflen gais, byddwn yn parhau i brosesu'r cais ond bydd disgwyl i chi osod pibellau gwarchoddedig, a allai gynyddu cost y gwaith sydd i'w wneud. Gellir codir ffi am ail ddyfynbris arnoch hefyd os cyflwynir Adroddiad Dadansoddiad Pridd yn ddiweddarach.

Ticiwch pa opsiwn sy'n berthnasol

Adroddiad pridd wedi'i gynnwys Pibellau amddiffynnol i'w gosod

Adran 6: Credydau seilwaith

1. Dywedwch wrthym am unrhyw eiddo fu ar y safle dros y pum mlynedd diwethaf; gan gynnwys ar gyfer beth y cawsant eu defnyddio ac a ydynt wedi'u dymchwel, oherwydd fe allai credydau yn erbyn taliadau seilwaith fod yn berthnasol. *Nodyn 6.1*

	Cyfeiriad post blaenorol gan gynnwys y cod post	Dyddiad dymchwel	Defnydd blaenorol
1			
2			
3			
4			
5			
6			
7			
8			
9			
10			

Os ydych chi'n gwybod manylion am ragor o eiddo, dywedwch wrthym am y rhain ar ddalen ychwanegol a'i hatodi i'r ffurflen gais pan fyddwch yn ei hanfon atom. *Nodyn 6.2*

Adran 7: Ffitiadau dŵr a draeniad

1. A oes unrhyw eiddo â'i lawr gwaelod wedi'i godi fwy na phum metr uwchlaw'r briffordd gyhoeddus, h.y. ffordd neu lwybr?

Oes Nac oes

2. Gan gynnwys y llawr gwaelod beth yw uchafswm nifer y lloriau mewn adeilad unigol?

3. A yw'r system dŵr poeth i'w bwydo'n uniongyrchol o'r prif gyflenwad dŵr? (e.e. combi/heb fent)

Ydy Nac ydy

4. A fydd gosodiadau plymio dŵr glaw, dŵr wedi'i ailgylchu neu ddŵr llwyd yn cael eu defnyddio? Nodyn 7.1

Bydd Na fydd

5. A fydd systemau chwistrellu tân yn cael eu gosod yn yr eiddo? Nodyn 7.2

Bydd Na fydd

6. A fydd pob eiddo domestig newydd yn cael ei adeiladu yn unol â Rhan G (ar gyfer Cymru) o Reoliadau Adeiladu 2010, sef 110 litr neu lai o ddŵr y person y dydd (ypyd)

Bydd Na fydd

Os Bydd, anfonwch gopi o Adroddiad Cydymffurfio Rhan G (ar gyfer Cymru) neu gopi pdf o ganlyniadau gwefan [Water Calculator](#) gyda'ch ffurflen gais.

Os mai dim ond rhai o blith yr eiddo domestig newydd sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer 110 litr neu lai o ddŵr ypyd, dywedwch wrthym pa blotiau yma:

7. A fydd dŵr wyneb o bob eiddo domestig newydd yn cael ei ollwng i'r system garthffosiaeth gyhoeddus?

Bydd Na fydd

Os mai dim ond rhai o blith yr eiddo domestig newydd fydd heb gysylltiad dŵr wyneb, dywedwch wrthym pa blotiau yma:

8. A fydd system ddraenio gynaliadwy yn cael ei gosod o bob eiddo domestig newydd?

Bydd Na fydd

Os mai dim ond rhai o blith yr eiddo domestig newydd fydd â system ddraenio gynaliadwy wedi'i gosod, dywedwch wrthym pa blotiau yma:

Adran 8: Manylion adeiladu

Gall datblygwr ddewis naill ai Hafren Dyfrdwy (HD) neu osodwr sydd wedi'i achredu gan Gynllun Rheoleiddio'r Diwydiant Dŵr (WIRS), Darparwr Hunanosod (SLP) i osod prif bibellau a/neu wasanaethau dŵr newydd.

Er mwyn i ddatblygwr allu gwneud penderfyniad gwybodus, bydd HD yn cyhoeddi Llythyr Cynnig a fydd yn manylu ar y gwaith sydd ei angen a'r costau ar gyfer hunanosod ac ar gyfer ceisio prif bibell ddŵr newydd gan HD.

Ydych chi eisoes wedi penderfynu pwy fydd yn gosod y brif bibell ddŵr newydd?

Ydw Nac ydw

Os SLP, byddwn yn anfon Cytundeb Hunan-osod atoch gyda'n Llythyr Cynnig.
Yn y cyfamser, dywedwch wrthym pa opsiwn y byddwch chi'n ei ddefnyddio:

SLP i ddylunio ac adeiladu

SLP i'w adeiladu yn unig

A yw'r SLP yn gosod y gwasanaethau hefyd?

Ydy Nac ydy

Dywedwch wrthym pa SLP y byddwch chi'n ei ddefnyddio:

Enw'r SLP	
Cyfeiriad a chod post Nodyn 8.1	
Enw cyswllt	
Rhif ffôn	
Cyfeiriad e-bost	
Rhif cwmni	

Pwy sy'n mynd i gwblhau'r Cysylltiad Mewn Lein?

HD SLP

I bwy y dylid talu'r Taliad Gwerth Asedau?

Datblygwr SLP

Ydych chi am i'r holl gyfathrebu yn y dyfodol fod gyda'r SLP?

Ydw Nac ydw

Pa fath o gytundeb ydych chi am i ni ei anfon atoch?

DAD RD

Adran 9: Proffil y datblygiad

1. Rhowch ddyddiad dechrau'r rhaglen adeiladu i ni:

2. Rhowch ddyddiad gorffen y rhaglen adeiladu i ni

Tabl 9A: Unedau aelwydydd Nodyn 9.1

Ar gyfer pob math o eiddo, dywedwch wrthym faint o bob un fydd yn cael ei adeiladu

Fflatiau	Tai teras, cartrefi symudol, maisonettes	Tai pêr	Adeiladau ar wahân yn cynnwys adeiladau ar wahân wedi'u cysylltu

Tabl 9B: Unedau nad ydynt yn gartrefi (rhowch restr fanwl) Nodyn 9.2

Dywedwch wrthym am bob cysylltiad sydd ei angen (gweler yr enghraifft isod)

Disgrifiad o'r eiddo	Cyfanswm nifer	Y llif dŵr brig mewn litrau yr eiliad	Capasiti storio mewn litrau	Cyfanswm arwynebedd llawr mewn m ²
e.e. Gwesty	54 gwely	1.0 l/s	5000	1200

Adran 9C: Rhestr Ffitiadau

(Heb fod yn gartref) Nodyn 9.3

Llenwch y tabl hwn ar gyfer pob eiddo/cysylltiad. Os oes mwy nag 1 eiddo, rhowch fanylion ar ddalen ar wahân ac anfonwch hi gyda'r ffurflen gais.

Plot/uned neu enw	Cyfanswm nifer	Nifer a gyflenwir o storfa	Maint gwerth (mm)	Cyfanswm nifer	Lleiafswm cyfradd llenwi tanc (l/s)
Seston fflysio toiled					
Sestonau fflysio awtomatig					
Basnau mewn cartrefi					
Basnau mewn mannau eraill					
Baddonau (maint y tap 20mm)					
Baddonau (tap yn fwy nag 20mm)					
Cawodau					
Sinciau (maint tapiau 15mm)					
Sinciau (tapiau mwy na 15mm)					
Tapiau chwistrell sengl					
Bidets					
Peiriannau golchi llestri					
Peiriannau golchi dillad Dŵr proses (porthiant uniongyrchol) mewn l/s				Dŵr proses (porthiant uniongyrchol) mewn l/s	
Peiriannau gwerthu diodydd					
Tap bib piben 15mm Rhowch fanylion:				Rhowch fanylion:	
Tap bib piben 22mm					
Tap bib piben 25mm					
Arall (rhowch fanylion)					

3. A fydd angen cyflenwadau dŵr eraill h.y. cyfleusterau cymunedol, pwll nofio ac ati?

Bydd Na fydd

Os bydd, dywedwch wrthym faint o lif sydd ei angen mewn litrau yr eiliad

Adran 10: Darpariaeth ymladd tân

Rydym yn argymhell darparu ar gyfer storio er mwyn sicrhau bod cyflenwad dŵr digonol ar gael at ddibenion ymladd tân.

1. A oes angen chwistrellydd neu hydrant arnoch ar y safle?

Chwistrellydd Hydrant

2. Dywedwch wrthym os yw'r tanc storio sydd i'w ddefnyddio yn un capasiti llawn neu gapasiti is:

Llawn Is

Os yw'n danc storio capasiti llawn, dylai'r gyfradd llenwi'r tanc mewn 36 awr.

Os yw'n danc storio llai, dywedwch wrthym beth yw lleiafswm y gyfradd llenwi tanc sydd ei hangen arnoch l/s

Adran 11: Rhestr wirio a thalu

Sicrhewch eich bod yn anfon yr holl wybodaeth atom er mwyn i ni allu prosesu'ch cais a dod yn ôl atoch cyn gynted â phosibl.

Mae ffi am y cais; mae i'w gweld isod. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am y ffioedd yn www.hdcymru.co.uk/application-forms-and-guidance-notes neu drwy'n ffonio ni ar **0330 678 1481**. Dangosir yr opsiynau talu isod, ond os ydych chi'n talu trwy siec, gwnewch yn siŵr ei fod yn sownd yn ddiogel i'r ffurflen gais a bod yr holl eitemau'n cael eu postio gyda'i gilydd.

Os na fyddwn yn derbyn y ffi/ffioedd ymgeisio o fewn 30 diwrnod o dderbyn eich cais, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad ydych chi eisiau bwrw ymlaen â'r cais hwn.

Ticiwch i nodi bod gwybodaeth wedi'i hatodi.

- 1 copi o gynllun lleoliad yn dangos, gydag ymyl pinc, safle'r datblygiad ynghyd ag unrhyw dir cyfagos sy'n eiddo i'r ymgeisydd gydag ymyl glas.
- 1 copi o gynllun gosodiad y safle yn dangos y manau lle mae'r ymgeisydd am i'r prif gyflenwad y cyflwynir cais amdano gysylltu â'i wasanaethau preifat neu ar y safle

Rhaid i gynllun gosodiad y safle gynnwys:

- maint y gosodiad cyntaf, os bydd angen nifer o ymweliadau a phob cysylltiad "cefn wrth gefn" os yw'r brif bibell yn cael ei hunanadeiladu
- rhifau plotiau
- gofynion gweithio fesul cam
- arwynebedd i'w fabwysiadu fel priffordd gyhoeddus
- sribedi gwasanaeth, os yn berthnasol
- manau mynediad a llwybr gwasanaeth i gefn llwybr troed/pwynt terfyn

Defnyddir AUTOCAD 2004 i gynhyrchu cynlluniau dylunio'r prif bibellau. Felly e-bostiwch gopi o gynllun gosodiad eich safle atom ar ffurf AUTOCAD, ynghyd ag enw'r datblygwr ac enw safle'r datblygiad yn y maes pwnc at: new.connections@hdcymru.co.uk

Dywedwch ar ba ddyddiad y cafodd y cynllun ei e-bostio atom

Dywedwch beth yw'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych

Dywedwch beth oedd teitl yr e-bost

- copi o'r caniatâd cynllunio dilys ar gyfer y safle (os yw'n ddatblygiad arfaethedig)
- tystiolaeth bod y safle neu'r eiddo yn eiddo i'r ymgeisydd neu yn ei feddiant (e.e. dogfen y Gofrestrfa Tir)
- tystiolaeth bod yr eiddo domestig wedi cael eu hadeiladu yn unol â Rhan G (ar gyfer Cymru) Rheoliadau Adeiladu 2010 ar gyfer 110 litr neu lai o ddŵr ypyd. Gall hyn fod yn gopi o Adroddiad Cydymffurfio Rhan G (ar gyfer Cymru) neu gopi pdf o ganlyniadau'r [Water Calculator](#)
- Adroddiad Dadansoddi Pridd wedi'i amgáu, os yn berthnasol (gweler adran 5)
- taliad am y ffi (gweler ein llyfryn taliadau diweddaraf sydd ar gael ar ein gwefan)
- Os oes angen anfoneb arnoch cyn y gallwch anfon taliad am y ffi atom, ticiwch yma a byddwn yn anfon un atoch gyda'ch cydnabyddiaeth a'ch cyfeirnod.

Adran 11a: Manylion talu

Dywedwch sut y byddwch yn talu'r ffi ymgeisio:

Siec Cerdyn debyd/credyd BACS

Ar gyfer taliadau cerdyn debyd/credyd, byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn derbyn y ffurflen gais er mwyn cymryd taliad. Gwnewch y siec yn daladwy i Hafren Dyfrdwy Cyf a'i phostio atom gyda'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau.

Os ydych chi'n gwneud taliad BACS anfonwch eich taliad i'n banc gan ddefnyddio'r manylion hyn:

Enw'r cyfrif: Hafren Dyfrdwy Cyf

Banc: Barclays

Cod didoli: 20-00-00

Rhif cyfrif: 33604071

Rhif UTR: GB486985565

Rhif cwmni cofrestredig: 054 15325 13168

Dywedwch ar ba ddyddiad y gwnaed y taliad, pwy a'i gwnaeth a'r rhif cyfeirnod BACS fel y gallwn baru'ch cais â'ch taliad.

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw daliad BACS wedi'i wneud cyn i chi gyflwyno'ch cais.

Anfonwch unrhyw geisiadau wedi'u llenwi a'r wybodaeth ategol at:

Hafren Dyfrdwy Cyf

PO Box 5311

Coventry

CV3 9FL

Neu anfonwch nhw trwy e-bost at new.connections@hdcymru.co.uk mewn ffeil zip.

Os byddwch yn anfon eich cais atom drwy e-bost, byddwn yn cymryd y byddwch yn talu gyda cherdyn credyd/debyd a byddwn yn cysylltu â chi i gael taliad.

Cyf BACS	
Talwr	
Dyddiad	
Swm	

Adran 12:

(I'w lofnodi gan y Gofynnydd)

Rhowch wybod i mi am amcangyfrif o gost a'r rhaglen ar gyfer darparu prif bibell(au) dŵr newydd at ddibenion domestig a/neu annomestig* dilëwch fel sy'n berthnasol) ar gyfer y datblygiad a enwir uchod. Yn hyn o beth, byddaf yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan Hafren Dyfrdwy Cyf.

Deallaf y bydd cyflwyno'r ffurflen hon yn cael ei drin fel ymholiad rhagarweiniol ac nad yw'n fy ymrwymo i na Hafren Dyfrdwy Cyf, ac eithrio fel y nodir isod. Yn benodol, deallaf nad yw Hafren Dyfrdwy Cyf yn awdurdodi nac yn dal ei hun yn gyfrifol am ad-dalu unrhyw dreuliau a gafwyd mewn unrhyw waith dylunio a wnaed gennyf heb gymeradwyaeth benodol Hafren Dyfrdwy Cyf.

Cadarnhaf os bydd angen amcangyfrifon a rhaglenni pellach neu ddiwygiedig ar gyfer darparu prif bibellau dŵr cyhoeddus ar gyfer y datblygiad a enwir uchod, ar ôl i Hafren Dyfrdwy Cyf ddarparu'r amcangyfrif o gost a rhaglen, byddaf yn talu costau Hafren Dyfrdwy Cyf ac yn darparu unrhyw daliad ymlaen llaw y gall fod ei angen yn rhesymol arnynt. O dderbyn yr amcangyfrif o'r gost a'r rhaglen, byddaf yn dod i gytundeb ysgrifenedig ffurfiol gyda Hafren Dyfrdwy Cyf ar gyfer ceisio prif bibell ddŵr.

Rwyf hefyd yn cadarnhau, os na fydd y cais yn mynd rhagddo, y byddaf yn ad-dalu costau ofer rhesymol Hafren Dyfrdwy Cyf wrth baratoi'r amcangyfrif o'r gost a'r rhaglen.

Os oes mwy nag un gofynnydd, llungopiwch y dudalen datganiad hon a sicrhewch fod pob ymgeisydd yn dychwelyd copi wedi'i lofnodi.

Trwy lofnodi'r ffurflen hon rwy'n cadarnhau:

- **Mai'r Gofynnydd yw perchennog/deiliad y tir neu'r eiddo presennol y gwneir cais am brif bibell ddŵr ar ei gyfer**
- **Y bydd yr holl ofynion statudol, gan gynnwys heb gyfyngiad, Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 a Rheoliadau CDM 2015 (fel y'u diwygiwyd), yn cael eu bodloni**
- **Fy mod wedi darllen y Llyfryn Taliadau Datblygwyr ac yn deall y taliadau sy'n berthnasol i geisio prif bibell ddŵr**
- **Fy mod wedi darllen nodiadau canllaw ceisiadau prif bibellau a chysylltu gwasanaethau Hafren Dyfrdwy**
- **(os ydych chi'n arwyddo ar ran Cwmni) Rwyf yn gynrychiolydd wedi'i awdurdodi'n briodol i'r Cwmni a gallaf ymrwymo'r Cwmni yn unol â hynny.**

Llofnod**Enw llawn mewn priflythrennau****Swydd****Enw'r cwmni: (os ydych chi'n arwyddo ar ran Cwmni)****Cyfeiriad:****Cod Post:**

Bydd y wybodaeth a rowch i ni yn y cais hwn yn cael ei defnyddio at ddibenion darparu prif bibell ddŵr. Byddwn yn darparu ein cynigion ar gyfer dylunio prif bibell ddŵr, amcangyfrif o'r gost a rhaglen.

Nodwch mai dim ond gyda'r partïon hynny a nodwyd ar y cais y byddwn yn trafod y cysylltiad newydd hwn.

Os byddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl er mwyn peidio ag oedi eich cais.

Nodiadau canllaw

NODYN PWYSIG Gall gwybodaeth annigonol neu wallus arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

Nodyn 1: Manylion y gofynnydd

- 1.1 Y Gofynnydd yw perchennog/deiliad y safle sydd angen y cysylltiad. Yr unigolyn/cwmni hwn sy'n gyfrifol am gynnwys y ffurflen gais ac am dderbyn yr amodau a nodir yn natganiad y cais.
- 1.2 Sicrhewch fod y cyfeiriad llawn a'r manylion cyswllt yn cael eu darparu. Gellir defnyddio'r manylion cyfeiriad hyn ar gyfer cysylltu a gohebiaeth yn y dyfodol.
- 1.3 Rhif Cwmni Cofrestredig: Rhif cofrestru'r busnes fel y'i cyhoeddwyd gan Dŷ'r Cwmnïau (www.companieshouse.gov.uk)
- 1.4 Byddwn yn derbyn ffurflen gais a gwblhawyd gan Asiant/Ymgynghorydd, fodd bynnag, y Gofynnydd sy'n parhau'n gyfrifol am gynnwys y cais a rhaid iddo/iddi lofnodi'r ffurflen gais.
- 1.5 Rhowch gymaint o gyfeiriad y safle ag sydd ar gael wrth gyflwyno. Rhaid i'r cyfeiriad hwn gynnwys enw ffordd, tref/dinas a sir.
- 1.6 Mae cyfeirnod yr Arolwg Ordnans yn gyfeirnod grid 12 digid wedi'i rannu'n ddau rif 6 digid (X ac Y). Gallwch gael hwn o www.ordnancesurvey.co.uk
- 1.7 Os ydych wedi gwneud ymholiad datblygu neu wedi cyflwyno unrhyw geisiadau sy'n gysylltiedig â'r safle hwn, rhowch y cyfeirnodau i ni. Bydd hyn yn ein helpu i brosesu'r cais hwn.

Nodyn 2: Manylion y contractwr

- 2.1 Y contractwr yw'r cwmni a fydd yn cwblhau'r gwaith ar y safle.

Nodyn 3: Rheoliadau Rheoli Adeiladu a Dylunio (CDM) 2015

- 3.1 Mae eich prosiect yn hysbysadwy os bydd gwaith adeiladu yn para mwy na 30 diwrnod gwaith a bod mwy nag 20 o weithwyr yn gweithio ar yr un pryd ar unrhyw adeg yn y prosiect; neu'n cynnwys mwy na 500 o ddyddiau person.

NODYN PWYSIG: Pan fydd prosiect yn hysbysadwy, rhaid i'r cleient roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Gweithredol cyn gynted ag y bo'n ymarferol cyn i'r cyfnod adeiladu ddechrau.
- 3.2 Ceir mwy o wybodaeth am yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a sut i gysylltu â nhw yn www.hse.gov.uk
- 3.3 Cleient domestig yw rhywun sy'n cael gwaith adeiladu wedi'i wneud yn ei gartref ei hunan, neu gartref aelod o'r teulu, nad yw'n cael ei wneud mewn cysylltiad â busnes. Gall awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, elusennau, landlordiaid a busnesau eraill fod yn berchen ar eiddo domestig, ond nid ydynt yn gleient domestig at ddibenion CDM 2015. Os yw'r gwaith yn gysylltiedig â busnes sydd ynghlwm wrth eiddo domestig, megis siop, nid yw'r cleient yn gleient domestig.
- 3.4 Nid yw'n ofynnol i gleient domestig gyflawni'r dyletswyddau a osodir ar gleientiaid masnachol. Os mai un contractwr yn unig sy'n ymwneud â'r gwaith, rhaid i'r contractwr gyflawni dyletswyddau'r cleient yn ogystal â'r dyletswyddau sydd ganddynt eisoes fel contractwr. Yn ymarferol, dylai hyn olygu gwneud fawr ddim mwy i reoli'r gwaith er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch. Os oes mwy nag un contractwr, rhaid i ddyletswyddau'r cleient gael eu cyflawni gan y contractwr sy'n rheoli'r gwaith adeiladu.
Os dymunant, mae gan gleient domestig hyblygrwydd i gytuno (yn ysgrifenedig) gyda'u dylunydd, y pensaer fel arfer, bod y dylunydd yn cydlynu ac yn rheoli'r prosiect. Lle na wneir cytundeb o'r fath, bydd y prif contractwr yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau rheoli prosiect yn awtomatig.
- 3.5 Mae HSE yn darparu disgrifiad o'r deiliaid dyletswydd eraill, gan gynnwys:
Cleientiaid yw sefydliadau neu unigolion y cynhelir prosiect adeiladu ar eu cyfer.
Prif Ddylunwyr yw dylunwyr a benodir gan y cleient mewn prosiectau sy'n cynnwys mwy nag un contractwr. Gallant fod yn sefydliad neu'n unigolyn sydd â gwybodaeth, profiad a gallu digonol i gyflawni'r rôl.
Prif Gontractwyr yw contractwyr a benodir gan y cleient i gydlynu cam adeiladu prosiect lle mae'n cynnwys mwy nag un contractwr.
Fel dylunydd, mae gennym ddyletswydd dan Reoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) 2015 i roi gwybod i chi am ddyletswyddau'r cleient. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Sicrhau bod prif ddylunydd cymwys yn cael ei benodi
 - Sicrhau bod prif gontractwr cymwys yn cael ei benodi
 - Darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y cais hwn ac unrhyw wybodaeth iechyd a diogelwch berthnasol drwy gydol cyfnod dylunio ac adeiladu'r gwaith
 - Peidio â chaniatáu i'r gwaith adeiladu ddechrau oni bai bod y prif gontractwr wedi paratoi cynllun i reoli, monitro a chydlynu iechyd a diogelwch yn ystod y gwaith

Ceir rhagor o fanylion yn www.hse.gov.uk

Nodyn 4: Manylion y cyngor lleol

4.1 Dywedwch wrthym beth yw enw'r awdurdod cyngor sydd wedi darparu caniatâd cynllunio ar gyfer y safle.

4.2 Rhowch y cyfeirnod unigryw ar gyfer y caniatâd cynllunio a roddwyd gan awdurdod y cyngor i ni.

4.3 Caniatâd amlinellol: Math o ganiatâd cynllunio a gynlluniwyd i brofi'r egwyddor a yw datblygiad yn dderbyniol.

Gall yr awdurdod cynllunio ofyn am unrhyw fanylder y credant sy'n angenrheidiol ar gyfer dod i benderfyniad, er mai dim ond ychydig o wybodaeth a ddarperir fel arfer. Nid yw caniatâd amlinellol yn awdurdodi adeiladu, dim ond bod y safle'n addas i'w ddatblygu.

4.4 Caniatâd Llawn: Asesiad cynllunio manwl a fydd yn rhoi caniatâd i'r gwaith adeiladu ddechrau, yn ogystal â chadarnhau defnydd y safle yn y dyfodol.

Nodyn 5: Cyflwr y tir

5.1 Enghreifftiau o'r halogyddion

- a) Cyfansoddion organig actif ar yr wyneb: glanedyddion, sebonau, cyfryngau gwlychu neu alcohol
- b) Cyfryngau ocsideiddio crynodedig: Clorin, asid nitrig ac asid sylffwrig

Ystyrir bod y safle wedi'i halogi os yw wedi'i leoli o fewn 100m i orsaf betrol neu safle diwydiannol a fyddai'n defnyddio ac yn gwaredu cyfryngau halogi

5.2 Diffiniadau o ddefnydd blaenorol

- a) **Tir glas/amaethyddiaeth:** Arwynebedd tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer amaethyddiaeth, tir coedwig neu ryw safle arall heb ei ddatblygu
- b) **Tai:** Safle wedi'i neilltuo ar gyfer eiddo domestig
- c) **Diwydiant:** Safle wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd masnachol neu ddiwydiannol
- d) **Tirlenwi:** Safle gwaredu lle caiff gwastraff solet, megis papur, gwydr, a metel, ei gladdu rhwng haenau o faw a deunyddiau eraill yn y fath fodd ag i leihau halogi'r tir cyfagos.

Nodyn 6: Credydau Seilwaith

6.1 Mae taliadau seilwaith yn ariannu cynnal ein rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth lleol sydd eu hangen i wasanaethu'r galw.

Gwneir y taliadau hyn o dan Adran 146 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae atebolrwydd am daliadau seilwaith yn codi pan fo eiddo a godir o'r newydd yn cael ei gysylltu â'r systemau dŵr neu garthffosiaeth cyhoeddus ac yn gallu derbyn dŵr at ddiobenion domestig. Ar safleoedd aiddatblygu, rhoddir credyd am bob eiddo a oedd â chysylltiad dŵr yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Bydd taliadau seilwaith yn cael eu cynnwys yn y dyfynbris a gewch ar gyfer cysylltu'r cyflenwad dŵr er nad oes angen cyfreithiol am daliad nes bod y cysylltiad dŵr wedi'i wneud.

Cyfeiriwch at ein Llyfryn Taliadau Datblygwyr cyfredol.

Rhaid talu am gostau cysylltu ymlaen llaw.

6.2 RHAID i wybodaeth am adeiladau ychwanegol gynnwys y wybodaeth y gofynnir amdani yn y tabl a ddangosir yng nghwestiwn 1.

Nodyn 7: Manylion plymio

7.1 Dŵr llwyd: Dŵr gwastraff a gynhyrchir o weithgareddau domestig fel golchi dillad, golchi llestri ac ymolchi.

7.2 Dylid dylunio systemau chwistrellu yn unol â BS EN 12845:2004 a Diwygiad 2:2009.

7.3 Dyma ein gofynion ar gyfer mesuryddion mewn eiddo amlfeddiannaeth:

- Bydd pob uned breswyl unigol a/neu ardal gymunedol yn yr eiddo yn cael ei mesur yn unigol.
- Rhaid i Hafren Dyfrdwy ddarparu'r mesurydd ond gall y datblygwr ei osod. Fel arall, gall Hafren Dyfrdwy osod y mesurydd am dâl.
- Yn y cam "Derbyn y Dyfynbris" mae angen i'r datblygwr gyflwyno lluniadau o bob llawr sy'n nodi:
 - **Pob plot gyda rhif plot**
 - **Unrhyw ardal gymunedol a/neu ardal i'r landlord sydd â chyflenwad dŵr**
 - **Lleoliad arfaethedig pob mesurydd**

• Ni fydd y cysylltiad â'r safle yn cael ei drefnu nes bod y wybodaeth hon wedi'i darparu a'i derbyn. Mae'n ofynnol i'r datblygwr roi darluniau diwygiedig i ni os gwneir unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i nifer a/neu leoliad yr eiddo preswyl, cyflenwadau i'r landlord neu rai cymunedol

Nodyn 8: Manylion adeiladu

8.1 Rhif Cwmni Cofrestredig: Enw'r busnes sydd wedi'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmniau - gweler www.companieshouse.gov.uk.

8.2 Mae rhif cofrestru TAW yn alffaniwmerig ac mae'n cynnwys hyd at 15 o nodau. Wrth nodi'ch rhif TAW, rhaid iddo gynnwys y ddwy lythyren sy'n nodi eich aelod-wladwriaeth yn yr UE (e.e. DK ar gyfer Denmarc, EL ar gyfer Gwlad Groeg, a GB ar gyfer y Deyrnas Unedig).

Gallwch gael eich rhif gan www.hmrc.gov.uk/vat

Nodyn 9: Proffil y datblygiad

9.1 Rhowch gyfanswm nifer y mangreoedd a fydd yn cael eu llenwi erbyn diwedd y datblygiad fel y gallwn asesu'r effaith ar ein rhwydwaith dŵr.

9.2 Rhowch restr o fanylion cysylltiedig yr holl unedau nad ydynt yn gartrefi sy'n cael eu hadeiladu ar y safle fel rhan o'r datblygiad hwn. Isod ceir tabl sy'n rhoi enghraifft o fathau o eiddo a chyfanswm o beth sydd ei angen ar gyfer pob un:

Math o eiddo	Cyfanswm nifer
Gwesty	Gwelyau
Ysbyty	Gwelyau
Cartrefi gofal	Gwelyau
Ysgolion	Disgyblion
Tai bwyta	Seddi

9.3 Mae angen cwblhau copi o Dabl 9C ar gyfer pob uned a fydd yn cael ei hadeiladu ar y safle.

Nodyn 10: Darpariaeth ymladd tân

10.1 Dylid dylunio systemau chwistrellu i BS EN 12845:2004

10.2 Cysylltwch â'r Swyddog Dŵr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub lleol os ydych chi'n ansicr o'r gofynion llif ymladd tân ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill,
gan gynnwys print bras a Braille.

I gael rhagor o wybodaeth:

Ffoniwch: **0330 678 1481**

E-bost: **new.connections@hdcymru.co.uk**

Mae galwadau i rifau 0800 yn rhad ac am ddim o linellau sefydlog yn y DU. Mae galwadau i rifau 0345 yn costio'r gyfradd leol. Wrth ddefnyddio ffôn symudol, efallai y bydd hynny wedi'i gynnwys yn eich pecyn munudau am ddim.

Hafren Dyfrdwy Cyf
PO Box 5311
Coventry
CV3 9FL

www.hdcymru.co.uk

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP



severn dee